04.08.2022

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Cyfle i ail-fyw taith chwe seleb i ddysgu Cymraeg

Nôl yn y gwanwyn fe ddechreuodd chwe seleb ar daith fythgofiadwy i ddysgu'r iaith Gymraeg - a bydd cyfle i ail-fyw eu hymdrechion ar **Iaith Ar Daith: Uchafbwyntiau** ar S4C.

Y chwech anturus oedd y Parchedig Kate Bottley, yr athletwr eithafol Richard Parks, y comedïwr Mike Bubbins, yr actores *Casualty* Amanda Henderson, y troellwr disgiau Katie Owens a'r seren *Strictly* Amy Dowden.

Gyda diwrnod o wersi Cymraeg gan Aran Jones o Say Something in Welsh a chwrs ar-lein roedd y chwech yn barod i fynd. Ond roedd gan bob un o'r selebs ffrind i'w helpu a gosod sawl her ar y ffordd.

Y cyflwynydd chwaraeon Jason Mohammad oedd yn cadw cwmni i Kate; y rhedwraig ultra-marathon Lowri Morgan oedd mentor i Richard; Elis James, y digrifwr oedd yn cadw Mike ar y trywydd iawn**;** y DJ Huw Stephens, oedd yn cadw cwmni i Katie Owen; Aled Jones, y canwr oedd mentor Amy a'r actores Mali Harries ymunodd â Amanda ar ei thaith.

Yn y rhaglen arbennig hon rydym yn cael ein hatgoffa am y rhesymau gwahanol oedd gan y chwe seleb am ddysgu'r iaith Gymraeg.

Meddai Kate: "Un o'r prif resymau dwi'n dysgu'r Gymraeg yw, i fod yn onest, mae gen i gywilydd fy mod i'n gallu dweud 'helo' a 'diolch' yng Ngroegaidd, Sbaeneg, Eidaleg a Ffrangeg ond dwi methu siarad Cymraeg ac mae Cymru jysd draw fynna! Mae hi'n iaith bwysig."

Roedd Richard yn teimlo bod rhywbeth ar goll yn ei fywyd a'r gallu i siarad Cymraeg oedd hwnnw ac yn achos Katie, roedd hi'n awyddus dysgu'r iaith er mwyn deall geiriau caneuon Cymraeg.

Meddai Mike: "Does dim esgus i beidio siarad Cymraeg os wyt ti'n byw yng Nghymru. Mae'n rhan o'r diwylliant ac yn rhywbeth sy'n rhoi hunaniaeth fel gwlad."

Bydd cyfle hefyd i fwynhau anturiaethau'r selebs a'u ffrindiau adnabyddus - pwy all anghofio Amy ac Aled yn gyrru cloddwyr; Kate a Jason yn dysgu sut i ddawnsio a Mike ac Elis yn gyrru tractorau ar drac rasio Pembre?

Ar fore olaf bob taith roedd her fawr yn wynebu pob seleb - sef yr her gyfryngol.

Gallwch fwynhau unwaith eto gweld Richard yn ymddangos yn yr opera sebon Rownd a Rownd; Amanda Henderson yn rhoi tips gwersylla ar raglen Prynhawn Da a Katie Owens yn cyflwyno sioe radio ar Radio Cymru.

S4C

Yn y rhaglen **Iaith Ar Daith: Uchafbwyntiau** ar nos Sul, Awst 14 cawn ein hatgoffa cymaint mae'r siwrnai yn golygu i'r dysgwyr ac mae sawl deigryn yn cael eu tywallt ar ddiwedd bob rhaglen wrth i'r dysgwyr disglair dderbyn englyn personol gan rhai o feirdd amlycaf Cymru i ddathlu eu teithiau bythgofiadwy.

**Iaith Ar Daith: Uchafbwyntiau**
**Nos Sul 14 Awst 8.00, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Boom Cymru ar gyfer S4C**

04.08.2022

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Another chance to join six celebrities on their journey to learn Welsh

Back in the spring, six celebrities started on an unforgettable journey to learn Welsh – and there will be a chance to re-live their highlights on **Iaith Ar Daith: Uchafbwyntiau** (Welsh Road trip: Highlights) on S4C.

The six intrepid celebs were Rev. Kate Bottley, extreme athlete Richard Parks, comedian Mike Bubbins, *Casualty* actor Amanda Henderson, DJ Katie Owens and *Strictly* star Amy Dowden.

With just one day of lessons with Aran Jones of Say Something in Welsh and an online course, the six were ready to go. But each of the celebs had a friend to help them and to set some challenges along the way.

Sports presenter Jason Mohammad kept Kate company; ultra-marathon runner Lowri Morgan was Richard's mentor; comedian Elis James kept Mike on the right track; DJ Huw Stephens kept Katie company; singer Aled Jones was Amy's mentor and the actor Mali Harries joined Amanda on her journey.

In this special programme we are reminded of the different reasons each celebrity had for learning Welsh.

Kate said: "One of the main reasons I'm learning Welsh is, to be honest, I'm ashamed that I can say 'hello' and 'thank you' in Greek, Spanish, Italian and French but I can't speak Welsh and Wales is just over there! It's an important language."

Richard felt that there was something missing in his life and that something was speaking Welsh and in Katie's case, she was keen to learn the language because she wanted to understand the words to Welsh songs.

Mike said: "There's no excuse not to speak Welsh if you live in Wales. It's a part of the culture and something that gives us identity as a country."

There will also be a chance to enjoy some of the adventures experienced by the celebs and their well-known friends – who could forget Amy and Aled driving diggers; Kate and Jason learning some dance moves and Mike and Elis driving tractors on the Pembrey racetrack?

On the last morning of each road trip there was a big test facing each celeb – the media challenge.

We can once again enjoy seeing Richard appear in the soap opera Rownd a Rownd; Amanda Henderson giving camping tips on magazine programme Prynhawn Da and Katie Owens presenting a show on Radio Cymru.

In **Iaith Ar Daith: Uchafbwyntiau** on Sunday, 14 August we are reminded how much the road trip meant to the learners and many tears are shed as our brilliant learners each receive a personal poem written for them by some of Wales's best-known poets to celebrate their unforgettable journeys.

**Iaith Ar Daith: Uchafbwyntiau**
**Sunday 14 August 8.00, S4C**
**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Boom Cymru production for S4C**